**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Y Bwrdd Pensiwn Lleol

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Gwener, 1 Ebrill 2022 am 10.00am**

**Yn Bresennol:** Y Cynghorydd A Lockyer (Cadeirydd) Presided

**Cynrychiolwyr Cyflogwr**
P K Jones

**Cynrychiolwyr Aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol**
R Broad

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Jeffrey Dong | Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog Adran 151 |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Carolyn Isaac | Cyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
***Cynrychiolwyr Cyflogwr***
I Guy

***Cynrychiolwyr Aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol***
D White

---

**28 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol: -

R Broad - Yr Agenda yn ei chyfanrwydd - Mae fy chwaer yn gweithio i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ac yn aelod o'r Gronfa - Personol.

Y Cynghorydd A Lockyer – yr Agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.  Mae fy ngwraig a'm mab hefyd yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

**Swyddogion:**

J Dong – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

C Isaac – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

J Parkhouse – yr Agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

**29 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2021 fel cofnod cywir.

**30 Cynllun Archwilio Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe 2022.**

Rhoddodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 ddiweddariad llafar i'r Bwrdd mewn perthynas â Chynllun Archwilio Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe Archwilio Cymru 2022.

Tynnodd sylw at broblemau adnoddau o fewn Archwilio Cymru ac ychwanegodd y byddai'r cynllun yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2022.

Tynnwyd sylw at weithdrefnau cynllunio diwedd blwyddyn, ynghyd â'r ffaith ei bod yn ymddangos bod y disgwyliadau'n debyg iawn i'r flwyddyn flaenorol.

**31 Cynllun Busnes Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe 2022/23.**

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth' a ddarparodd fframwaith gweithredol ar gyfer rhaglen waith y Gronfa Bensiwn ar gyfer 2022/23.

Nodwyd bod y Gronfa Bensiwn, yn unol ag arfer gorau, yn llunio cynllun busnes, cofrestr risgiau, cyllideb a dyraniad asedau i lywio'i rhaglen waith ar gyfer y cyfnod o 12 mis sydd i ddod. Atodwyd y cynllun busnes, y gyllideb, y gofrestr risg a'r dyraniad asedau ar gyfer 2022/23 yn Atodiadau 1, 2, 3 a 4.

Gofynnwyd i'r Bwrdd Bwyllgor nodi'r cynllun busnes, y gyllideb, y gofrestr risgiau a'r dyraniad asedau (gan nodi'r amrywiad rhwng dyraniadau gwirioneddol a tharged o ganlyniad i symudiadau yn y farchnad, yr eir i'r afael â hwy drwy ailddyrannu'n barhaus i'r portffolio cynhyrchu asedau go iawn) ar gyfer y flwyddyn 2022/23 gan nodi'r amserlen a'r cyfrifoldeb am bwyntiau gweithredu allweddol drwy gydol y flwyddyn. Roedd y ddogfen yn ddogfen ddynamig a byddai'n cael ei gwella a'i diwygio drwy gydol y flwyddyn yn ôl yr angen.

Tynnwyd sylw at gyflawniadau'r Gronfa Bensiwn ac fe'u canmolwyd, yn enwedig y ffaith ei bod wedi'i hariannu'n llawn, gyda'i lefel ariannu uchaf erioed a strategaeth i gyflawni sero net. Yn ogystal, canmolodd y Bwrdd y camau cyflym a gymerwyd gan y Gronfa mewn perthynas ag Wcráin yn unol â'r sancsiynau economaidd a osodwyd ar Rwsia gan y Gorllewin.

Llongyfarchodd y Cadeirydd swyddogion a staff am eu perfformiad a nododd y byddai'r rhyfel yn Wcráin yn cael effaith. Soniodd hefyd am y gwaith rhagorol a wnaed gan y Cynghorydd Clive Lloyd, a oedd yn rhoi'r gorau i fod yn Gynghorydd ac yn Gadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn. Yn ogystal, diolchodd i'r Cynghorydd Peter Jones, a oedd hefyd yn rhoi'r gorau i fod yn Gynghorydd ac yn Aelod o'r Bwrdd.

## 32 Hyfforddiant Ymddiriedolwyr.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth' a gymeradwywyd gan Bwyllgor y Gronfa Bensiwn ar 15 Mawrth 2022 a phenderfynodd ar y rhaglen hyfforddi flynyddol ar gyfer Pwyllgor y Gronfa Bensiwn, aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol a swyddogion y Gronfa Bensiwn.

Nodwyd y gallai hyfforddiant ddychwelyd i gael ei ddarparu'n bersonol wrth i gyfyngiadau gael eu llacio.

## 33 Toriadau.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn darparu manylion unrhyw doriadau a gafwyd yn y cyfnod hwn yn unol â'r polisi Adrodd am Doriadau.

Darparodd Atodiad A fanylion y toriadau a gafwyd ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor y Gronfa Bensiwn ym mis Rhagfyr 2021. Amlygwyd manylion y toriadau a'r camau gweithredu a gymerwyd gan reolwyr.

## 34 Gwahardd y Cyhoedd.

Gofynnwyd i'r Bwrdd wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhelliad/ion yr adroddiad ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitem(au) f/busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y bwrdd brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 35 Adroddiad yr Ymgynghorydd Buddsoddi.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/y Dirprwy Swyddog A151 ddiweddariad 'er gwybodaeth' ar y buddsoddiad chwarterol a'r farchnad gan yr ymgynghorydd buddsoddi penodedig i'r gronfa.

## 36 Contract Ymgynghorydd Buddsoddi.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth' a gymeradwywyd gan Bwyllgor y Gronfa Bensiwn ar 15 Mawrth 2022 a chytunwyd i ymestyn Contract yr Ymgynghorydd Buddsoddi (yn unol â fframwaith LGPS Norfolk ar gyfer Ymgynghorwyr Buddsoddi).

## 37 Diweddariad am Bartneriaeth Pensiwn Cymru.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth' i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Bwyllgor y Gronfa Bensiwn am gynnydd a gwaith Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC).

## 38 Crynodeb Buddsoddi.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn cynnwys y gwerthusiad o asedau a'r perfformiad buddsoddi ar gyfer y chwarter, y flwyddyn a'r 3 blynedd a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2022.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.53 am

**Cadeirydd**